

Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Llythrennedd Rhifedd
Cymhwysedd Digidol

Noda Donaldson (2015) fod angen i ysgolion ymgorffori llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm fel ‘cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd’. Pwysleisir bod angen i ddisgyblion “gael sgiliau llythrennedd a rhifedd cadarn, a gallu a hyder i ddefnyddio technoleg (Donaldson, 2015, t.28). Yn y byd sydd ohoni, mae sicrhau fod disgyblion yn medru ar y sgiliau yma yn holl bwysig er mwyn iddynt ddatblygu yn ‘ddysgwyr gydol oes’. Wrth ddefnyddio cyd-destunau sy’n addas i’r plant a rheiny’n gysylltiedig â bywyd bob dydd, mae modd amlygu’r cysylltiadau sy’n ymddangos yn naturiol o fewn bywyd a gwneud y dysgu yn berthnasol iddynt.

Cysyllta’r thema ‘Byw’n iach’ gyda’r Maes Dysgu a Phrofiad ‘Iechyd a Lles’ o fewn y cwricwlwm newydd. Pwysleisia Donaldson (2015, t.46) yr angen i blant a phobl ifanc dyfu’n “unigolion iach, hyderus”.

Dewiswyd y model ‘Hierarchaidd’ gan fod gwneud ymarfer corff yn y maes ‘Datblygiad Corfforol’ yn helpu disgyblion i ddeall yr effaith caiff hyn ar eu cyrff a phwysigrwydd byw yn iach fel rhan o’r maes ‘Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol’. Mae’r cysylltiad yma yn cyfoethogi’r dysgu ac yn darparu profiad uniongyrchol i’r plant er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Plant i ddisgrifio’r newidiadau sy’n digwydd i’w cyrff wedi iddynt wneud cylchredau gan “fynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.14). Bydd plant yn “ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir e.e. Ydy/Nac Ydy” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.14) i gwestiynau megis “Ydy eich calon yn curo yn gyflym?” a “Ydyd chi’n teimlo’n boeth?”.

Didolri bwydydd gwahanol gan “gyfrannu i drafodaeth” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.17) ynglŷn â pha rai dylen ni fwytia yn aml a pha rai y dylen ni fwytia yn llai aml. Ymchwilio ar y wê i’r ‘Plât Bwyta’n iach’ er mwyn canfod faint o’r wahanol fwydydd dylen ni fwytia er mwyn cadw’n iach.

Bydd y plant yn “defnyddio allweddieriau i chwilio am wybodaeth benodol” wrth ymchwilio gwahanol rhesiadau iach. Byddant yn defnyddio’r wybodaeth yma i “ysgrifennu at ddiben” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.24) drwy lunio rysâit am bryd o fwyd iach eu hunain. Defnyddir sgerbwrd Palmer (2010) ar gyfer cyfarwyddiadau i gynllunio’r rysâit. Bydd angen iddynt “ddefnyddio unedau safonol i fesur pwysau” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.35) wrth iddynt dreialu’r rhesiadau. Amlygir pwysigrwydd hyllendid personol a golchi dwylo yn ystod y sesiwn yma.

Gwell dealltwriaeth o Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Drwy gysylltu’r maes dysgu ‘Datblygiad Corfforol’ gyda’r maes dysgu ‘Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol’, darperir cyd-destun pwrpasol i ddisgyblion i “ddatblygu dealltwriaeth o’r ffaith bod ymarfer corff a hyllendid a’r mathau cywir o fwyd a diod yn bwysig er mwyn cael corff iach” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.11).

Fel rhan o’r gwaith, bydd plant yn “dechrau adnabod manteision ac anfanteision cyfryngau a dyfeisiau digidol ar eu bywydau” (LIC, 2016) gan drafod sut mae technoleg yn ein helpu ond hefyd sut mae’n cael effaith ar faint o ymarfer corff yr ydym yn ei wneud.

“Cyfrannu i drafodaeth” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.17) am bwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd a sut mae hyn yn cyfrannu at fywyd iach. Bydd y plant yn creu poster gwybodaeth yn hyrwyddo manteision gwneud ymarfer corff a bwyta’n iach gan “ddilyn a datblygu ar ffurf sydd wedi’i modelu gan yr athro” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.25).

Bydd y plant yn edrych ar enghreifftiau o bostiery byw yn iach er mwyn casglu syniadau ac yn creu meini prawf. Llywyddiant ar gyfer y poster. Bydd plant yn asesu gwaith eu cyfoedion er mwyn gweld a yw’r posteri yn diwallu’r meini prawf a osodwyd. Gellir arddangos y posteri ar draws yr ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o fyw yn iach.

Datblygiad Corfforol

Cynhelir sesiynau cylchred yn wythnosol er mwyn i’r plant ddatblygu eu hyder a gwella eu hyfedredd. Wrth i’r plant gael eu cyflwyno i amrywiaeth o offer, bydd angen iddynt “wrando ar eraill gan ganolbwyntio, deall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.15).

Ar ôl ymarfer eu cyrff, bydd y plant yn “cyfrannu i drafodaeth” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.17) am ba effaith gafodd hyn ar eu cyrff, eu hanadl, curiad calon ayyb drwy “ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir e.e. Ydy/Nac Ydy” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.16). Llunir cwestiynau pwrpasol yn seiliedig ar haenau ‘Dealltwriaeth’ a ‘Dadansoddi’ o dactonomeg Bloom (1956, dyfynnwyd yn Grigg, 2015).

Yn ystod y sesiynau, bydd y plant yn cofnodi sawl gwaith maen nhw’n medru gwneud y gweithgaredd o fewn yr amser penodedig. Bydd disgyblion yn “cymharu a rhoi rhifau 2 ddigid mewn trefn” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.31) i ddarganfod pwy oedd yn medru gwneud y myaf. Bydd y plant yn ceisio gwella ar eu sgôr wrth i’r sesiynau fynd rhagddynt er mwyn datblygu eu sgiliau corfforol.

Addaswyd o Barnes (2015, t.62)

Thema: BYW YN IACH Bl.2

MODEL 2 Hierarchaidd

MODEL 1

Dysgu seiliedig ar thema

O fewn y cwricwlwm newydd, byddai’r thema ‘Cartrefi’ yn syrthio o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad, ‘Dyniaethau’.

Dewiswyd y model ‘Dysgu seiliedig ar thema’ am fod yna ystod o agweddau y medrir eu harchwilio o fewn y thema ‘Cartrefi’. Darpara’r model hwn gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am ystod o is-themâu sy’n gysylltiedig ag arfer presennol y Cyfnod Sylfaen.

Cynefinoedd Anifeiliaid

Er mwyn cyflwyno’r is-thema i’r plant, bydd y dosbarth yn derbyn llythyr gan ddraenog yn esbonio ei fod wedi colli ei gartref oherwydd bod stâd o dai newydd yn cael ei adeiladu. Mae angen cymorth y dosbarth arno i greu cartref newydd.

Bydd y plant yn “cyfrannu i drafodaeth” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.17) am beth sydd angen ar y draenog i gysgodi gan adnabod yr effaith caiff y wahanol dymhorau arno. Adnabod pa gynefin mae draenog yn byw ynddo gan edrych ar ba gynefinoedd sy’n cynnal anifeiliaid eraill. “Ysgrifennu at ddiben” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.24) drwy lunio hysbyseb ar gyfer cartref i’r draenog gan ystyried ei anghenion. Defnyddio’r hysbyseb fel meini prawf llwyddiant ar gyfer adeiladu cartref i’r draenog.

Archwilio ac arbrofi yn yr awyr agored am wahanol ddeunyddiau naturiol i’w defnyddio. Gweithio fel grŵp i greu cartref i’r draenog gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau i ddatrys y broblem a “rhannu gwybodaeth i gwbilau tasg” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.17). “Defnyddio unedau safonol i fesur hyd ac uchder” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.35) i sicrhau fod y cartref yn ddigon mawr i’r draenog. Arfarnu cartrefi’r grŵpiau eraill yn erbyn y meini prawf llwyddiant i weld pa mor addas yw’r cartrefi.

Cartrefi (Bl.2)

Adeiladu

Defnyddio stori’r ‘Tri Mochyn Bach’ fel sbardun ar gyfer arbrofi â gwahanol ddeunyddiau cyffredin. Plant i ddarllen y stori gan drafod y testun dan arweiniad yr athro. Trafod a yw’r deunyddiau yn addas ar gyfer adeiladu tŷ gan “ateb cwestiynau gan ddefnyddio ffurfiau cywir e.e. Ydy/Nac Ydy” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.16).

Defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau i arbrofi a dewis pa ddeunyddiau sydd fwyaf addas ar gyfer adeiladu cartref wrth greu modeli o dai. Didolri’r deunyddiau yn ôl eu priodweddau. Plant i “wneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth newydd am y pwnc” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.22) drwy drafod stori’r ‘Tri Mochyn Bach’. Arbrofi gyda chryfder y deunyddiau wrth geisio chwythu’r tai i lawr fel yn y stori. Plant i ragdybio pa ddeunyddiau fydd yn gwrth-sefyll y blaidd gan “fynegi barn, gan roi rhesymau a chynnig atebion priodol i gwestiynau” (Yr Adran Addysg a Sgiliau, 2015, t.14).

Ymchwilio ar-lein i wahanol fathau o ddeunyddiau a pha rai sy’n cael eu defnyddio i adeiladu tai gan “ddefnyddio allweddieriau i chwilio am wybodaeth benodol i ddatrys problem” (LIC, 2016). Edrych pa ddeunyddiau sy’n naturiol a pha rhai sy’n cael eu gwneud gan wahanol rhyngddynt.



Addaswyd o Barnes (2015, t. 69)

Manteision y model ‘Hierarchaidd’

Galluoga’r model i ddisgyblion ddefnyddio maes y maent yn hyderus ynddo i gefnogi a chyfoethogi dysgu o fewn maes arall. Awgrymir fod dysgu yn y modd yma yn cynorthwyo disgyblion i gofio a mewnloli’r wybodaeth yn well. Galluoga’r model i athrawon gysylltu meysydd o fewn cwricwlwm sydd eisoes yn orlawn er mwyn sicrhau dysgu yn yr holl feysydd. Defnyddir maes mae athrawon yn hyderus ynddo i’w cynorthwyo i addysgu’r maes arall. Gyda’r thema ‘Byw yn iach’ gwelir bod defnyddio ymarfer corff yn cryfhau dealltwriaeth plant o bwysigrwydd gwneud dewisiadau gwybodus er mwyn byw yn iach.

Cyfyngiadau’r model ‘Hierarchaidd’

Mae perygl fod pynciau megis y celfyddydau yn syrthio i’r categori israddol yn rhy aml ac ond yn cael eu cynnwys o fewn y cwricwlwm yn y modd yma. Rhaid felly sicrhau fod yna gydbwysedd rhwng y prif feysydd a’r rhai israddol ac nad yw’r un meysydd yn dominyddu’r cwricwlwm. Noda Barnes (2015) bod sgiliau a dealltwriaeth yr ail faes ond yn cael eu gwella ychydig o’u gymharu â’r prif faes. Cysyllta hyn gyda’r cyfrifoldebau-rhaid sicrhau bod eu cynnwys o fewn y wers yn darparu cyfleoedd i’w gwella ac nid i ‘lenwi blwch’.

Manteision y model ‘Dysgu Seiliedig ar Thema’

Darperir cyfrwng cyffannol i ysgogi dysgwyr i ddysgu. Amlyga Rowley a Cooper (2009) y medrir addysgu nifer o feysydd o dan un thema eang sy’n berthnasol i’r plentyn er mwyn iddynt fedru gweld cysylltiadau ystyrlon yn eu bywydau, sydd hefyd yn arbed amser ac yn llai ailadroddus. Mae’n hanfodol fod y meysydd dysgu sy’n cael eu cynnwys o fewn y model yma yn cael eu cyfoethogi drwy gael eu haddysgu’n drawsgwricwlaidd ac na ellir eu haddysgu yn well ar wahân. Mae hyn hefyd yn wir am lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Ystyrir y model hwn yn un ddefnyddiol iawn yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

Cyfyngiadau’r model ‘Dysgu Seiliedig ar Thema’

Un o’r prif ddadleuon ynglŷn ag addysgu’n drawsgwricwlaidd yw’r peryg fod athrawon yn creu cysylltiadau dibwrpas gyda rhai meysydd dysgu er mwyn eu cynnwys o fewn y thema. Mae cynllunio yn elfen bwysig wrth baratoi ar gyfer y model hwn. Rhaid i athrawon ystyried y thema yn ofalus gyntaf er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i’r plant. Yn dilyn hyn, rhaid ystyried y meysydd dysgu sy’n cysylltu yn naturiol ac yn creu cysylltiadau ystyrlon o fewn y thema.